PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 412 | Hydref 2018










# Darbi leol

Cafodd y gêm rhwng y Borth a Bow Street yng Nghwpan Cymru ar Fedi 29 ar Gae Piod gryn sylw gyda'r rhaglen deledu Sgorio yn dod i recordio. Y canlyniad oedd Bow Street 1  Y Borth 2.

Diolch i Beverley Hemmings am gael defnyddio y lluniau.



Lluniau: Beverley Hemmings

Capten y Borth Joshua Ferreira, Llŷr Evans y dyfarnwr, capten Bow Street Garmon Nutting a'r masgot Ellis Roberts



Nicky John o Sgorio yn holi Vernon Jones



Gethin ap Dafydd a Garmon Nutting



Peter Williams yn cael ei holi gan Sgorio

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**

**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**





**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916

**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296



# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd | Deunydd i law: Tach 2 Dyddiad cyhoeddi: Tach 21**

HYDREF 17 Nos Fercher Ruth Richards yn trafod *Pantywennol* a'i gwaith diweddaraf *Siani Flewog*. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

HYDREF 18 Nos Iau Cyfarfod cyhoeddus gan PATRASA i drafod dyfodol y cyrtiau tenis yn Neuadd y Penrhyn am 7.00.

HYDREF 19 Nos Wener 'Menywod yn fy mywyd' Llinos Dafis. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

HYDREF 19 Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 7.00. Hwyl i'r teulu oll.

HYDREF 20 Bore Sadwrn Hyfforddiant CPR a diffibriliwr yn Neuadd Rhydypennau am 10.00. Croeso i bawb.

HYDREF 20 Nos Sadwrn Gwilym Bowen Rhys mewn Cyngerdd Byw yn Cletwr o 19.30 -21.15 Tocynnau ymlaen llaw £6.50 neu teulu £15

HYDREF 21 Dydd Sul Oedfa uno'r Babell, Dol-y-bont a'r Garn, dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg Ddr Watcyn James am 2.00. Te croeso i ddilyn yn festri'r Garn. Croeso cynnes i bawb.

HYDREF 23 Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno Dwyn i gof - drama olaf Meic Povey yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30.

HYDREF 24 Nos Fercher Cwrdd diolchgarwch Capel Pen-llwyn – pregethwr gwadd y Parchg Andrew Lenny am 7.00.

HYDREF 27 Nos Sadwrn Cofiwch droi y cloc awr yn ôl.

TACHWEDD 1 Nos Iau Meic Stevens yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 8.00

TACHWEDD 5 Nos Lun Urdd y Gwragedd yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00.

TACHWEDD 9 Nos Wener Geraint Jarman yng yn Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7.30

TACHWEDD 9 Nos Wener Sioe Ffasiwn Cylch Menywod Aberystwyth (Aberystwyth Ladies Circle) yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.30 Drysau'n agor am 7.00 bydd Tesco, Cactws a Boutique Lily yn dangos eu dillad. Bydd yr elw yn mynd i elusennau lleol.

TACHWEDD 13-14 Nosweithiau Mawrth a Mercher Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno ' Nyrsus' (Bethan Marlow/ Rhys Taylor) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30 Bydd sgwrs yn dilyn y sioe nos Fawrth gyda'r actorion yn bresennol

TACHWEDD 14 Nos Wener 'Y Digymar Iolo Morgannwg' Yr Athro Geraint H. Jenkins. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30 Croeso cynnes.

TACHWEDD 16 Nos Wener. Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00 Hwyl i'r teulu oll.

TACHWEDD 16 Nos Wener Noson caws a gwin yn Neuadd Rhydypennau; adloniant gan Sgarmes (Elinor Powell) am 7.30. Tocyn: £10 Llywydd y noson: Llinos Dafis. Noddwyd gan C. T. Evans, Cyfarwyddwyr Angladdau (Gwyn a Janet Evans).

TACHWEDD 21 Nos Fercher Hefin Wyn *Ar drywydd Niclas y Glais*. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

TACHWEDD 28 Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Ffrindiau Cartref Tregerddan yn y Cartref am 7.00



Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Medi 2018:

**£25** (Rhif 40 ) Menna Davies, 11 Maesafallen, Bow Street
**£15** (Rhif 200 ) Howell Ebenezer, 19 Bryncastell, Bow Street
**£10** (Rhif 238 ) Llywelyn Evans, Rhyd y Ceir, Capel Madog

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Medi 19.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.


**Noson acwstig Haka**

Bu noson acwstig gyntaf yr Asiantaeth Adloniant Haka gynhaliwyd yn Arad Goch nos Wener Medi 29 yn llwyddiant mawr. Roedd dau artist lleol ymhlith perfformwyr y noson – y delynores Mared Emyr, y Borth, sydd yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd ac Esyllt Sears (née Dafydd), gynt o Bow Street ddiddanodd y gynulleidfa gyda stand up. Caiff ei chadw'n brysur- bu yn noson gomedi i'r myfyrwyr ddwy noson ynghynt. Yr artistiaid eraill oedd Gwi Jones, Sam Ebenezer, y Two Legged Mare a Jez Danks. Cyflwynwyd ac arweiniwyd y noson gan Ifan Jones Evans.
Sefydlwyd yr Asiantaeth gan Huw Bates, Bow Street a Kedma Macias, Aberystwyth ac mae yna amrywiaeth eang o artistiaid ar eu llyfrau – yn cynnwys Dylan Ebenezer ac Alana Spencer.





## 30 MLYNEDD YN OL



Mr Alun John, prifathro newydd Ysgol Penrhyn-coch. Llun: Hugh Jones (O Dincer Hydref 1988)

# Taith Gerdded Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Ar Ddydd Sul 30 Medi cynhaliwyd taith gerdded gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, o dan arweiniad medrus Angharad Fychan, i ardal Nant-y-moch a Phumlumon. Roedd dros 20 ar y daith a chafwyd cyfle i glywed am darddiad sawl enw hanesyddol ar y ffordd. Mwynhawyd cinio ar lan Llyn Llygad Rheidol, cyn mentro i ddringo i gopa Pumlumon Fawr. Mae'r Gymdeithas yn tyfu'n gyflym wrth i nifer o bobl ymddiddori mewn hanes a tharddiad enwau lleol. Gobeithir trefnu teithiau erall yn y dyfodol agos yn nalgylch *Y Tincer.* Os am ymuno â'r Gymdeithas i dderbyn gwybodaeth am ein holl weithgareddau, (mae'r tâl aelodaeth ond yn £10-00 y flwyddyn), gyrrwch e-bost at enwaulleoedd@gmail.com neu cysylltwch gyda'r ysgrifennydd aelodaeth, Richard Huws, ar rehuws@aol.com / 01970-832566



**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Gwynant a Bet Evans, Bow Street
**£5.00**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Gwasanaethau Capel Pen-llwyn**
**Hydref**
21 5.00 Bugail
28 10.00 Adrian Williams

**Tachwedd**
4 10.00 Rhidian Griffiths Cymun
11 10.00 Bugail
18 10.00 Richard Lewis
25 5.00 Eifion Roberts

**Merched y Wawr Melindwr**
Ar y ffordd i'r orsaf dân yn Aberystwyth, lleoliad ein cyfarfod mis yma ar 3 Hydref, gwelwyd y frigad dân yn mynd allan ar frys dros bont Trefechan.Yna croesawyd 18 o aelodau gan Mathew Roberts, Gweinyddwr y Watch. Dilynwyd hyn gan arddangosfa ddiogelwch i atal tân yn y cartref. Roedd yn agoriad llygaid gweld faint o wasanaethau oedd ar gael i'r cyhoedd. Maent yn cynnig arolygiad diogelwch y tŷ sydd yn sicrhau bod cynllun dianc iawn ar gael. Mae'n amlwg fod Gwasanaeth Canolbarth a Gorllewin

Cymru yn brysur gyda o leia 600 o alwadau brys y flwyddyn.Yma mae 9 diffoddwr tân llawn amser yn cael eu cyflogi gyda 20 rhan amser. Mae o leia 5 yn gweithio shift o 7 diwrnod. 3% o'r gwaith sydd i wneud â diffodd tân, damweiniau ar heolydd a llifogydd. Am weddill yr amser maent yn archwilio yn ddyddiol i ddarpariaeth arbennig.

Maent hefyd yn ymarfer am tua 4 awr y dydd i fod yn barod am bob math o argyfwng.

Mae'r orsaf yn Bencadlys i chwe gorsaf yng Ngheredigion ac mae'n amlwg bod yr orsaf newydd yn datblygu; mae'n cynnwys Caffi erbyn hyn.

Diolchwyd i Mathew gan Eirlys MacAnulty cyn symud ymlaen i Lety Parc am gyfarfod byr a chymdeithasu dros swper ysgafn.

Noson bleserus i'w chofio. Mae rhai aelodau yn edrych ymlaen i ymuno â Changen Llan-non nos Iau Hydref 11. Hefyd mae dau dîm yn paratoi i gymryd rhan yn y Cwis Cenedlaethol ar Dachwedd 9 yn Nhŷ Glyn Aeron. Mis nesaf byddwn yn cael ein diddori gan Mr Meirion Roberts, Cigydd, Porchell.




**Y Tri Aderyn**
Gobeithio i chi fwynhau yr erthygl uchod yn rhifyn mis Medi. Rhaid fod y rhan fwyaf ohonoch yn adnabod yr awdures, ond rhag ofn nad oedd rywun yn cofio, ei henw Gaenor Watkins ( née Morris), Llanymddyfri. Ymddiheuriadau am beidio ei gynnwys mis diwethaf.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Brian a Margaret a'u teuloedd, ar golli eu tad yn ddiweddar - Mr Dai Richards, a oedd yn derbyn gofal yng nghartref Cwm Cynfelin ar hyn o bryd. Bu Mr a Mrs Richards yn byw yn Nhŷ Capel Pen-llwyn rhai blynyddoedd yn ôl bellach, fel gofalwyr y capel. Trist oedd clywed am ei farwolaeth ar 28ain o Fedi yn 94 mlwydd oed.

**Triniaeth Feddygol**
Hyderwn fod Mr Eilir Morris, yn gwella erbyn hyn, ar ôl triniaeth ar ei lygad yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddo.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Mae gennym gymaint i fod yn ddiolchgar amdano, nid yn unig amser y cynhaeaf, ond trwy gydol y flwyddyn. Estynnwn wahoddiad i'r Cwrdd Diolch, i aelodau y capel ac eraill, i fod yn bresennol ar y 24ain o Hydref am 7 o'r gloch. Pregethir gan y Parchg Andrew Lenny, Aberystwyth. Cewch groeso cynnes bob un.



**Priodas**
Anna Young, merch Dr Robin Young, Islwyn, Blaengeuffordd, a'i phriod Daniel, wedi eu priodas yn Norwy, yn yr haf. Symudodd Anna i Norwy rhai blynyddoedd yn ôl, wedi mynychu ysgol Pen-llwyn, yn y nawdegau. Dysgodd yr iaith, er mai o Norwy oedd ei mam. Mae ganddi bellach dair iaith, ond dim llawer o gyfle i ymarfer y Gymraeg. Mae yn byw yn Norwy ar hyn o bryd yn gwneud ei doethuriaeth. Dymunwn iddi pob dymuniad da, yn ei bywyd priodasol.

**Sioe Capel Bangor**
Cafwyd sioe lwyddiannus iawn eleni eto ar gaeau Maes Bangor drwy garedigrwydd Teulu Cwmwythig. Mae yn faes delfrydol ac eleni mi gawsom ddiwrnod braf iawn. Cafwyd cystadlu brwd ar y cae ac yn y Babell. Y Llywyddion eleni oedd Dick a Beryl Davies Troedrhiwceir, teulu sydd yn gefnogwyr selog iawn ac yn llawn haeddu yr anrhydedd. Cafodd y ddau ddiwrnod prysur iawn yn beirniadu ac yn rhannu gwobrau. Diolch o galon iddynt am eu rhodd haelionus i goffrau y Sioe.

Eleni cafwyd gwobr raffl arbennig yn rhodd gan Dewi a Nerys Jones, Llanfigail, Ynys Môn, sef rhieni Llenni Lawlor Penffrwd, Cwmrheidol. Geraint Jones, Bont-goch, enillodd y penwythnos yn y Cwt Bugail yn Llanfigail, diolch o galon i Dewi a Nerys am wobr mor werthfawr. Llwyddwyd i godi £230.00 i goffrau y Sioe.

Nos Wener Medi 28ain cynhaliwyd Cinio'r Sioe yng Ngwesty'r Hafod Pontarfynach. Daeth tua 50 o bobl ynghyd i fwynhau pryd blasus iawn o fwyd. Croesawodd

Rhydian Davies, y Cadeirydd, bawb ynghyd a'r gŵr gwadd oedd Michael Morgan o Felin-fach. Cawsom orig ddifyr iawn yn ei gwmni yn sôn am ei amser yn gweithio yn y diwydiant llaeth yn Ffatrioedd Felin-fach a Llangadog.

Anodd meddwl fod y ddwy ffatri wedi cau erbyn hyn a bod y llaeth yn awr yn cael ei gario ar hyd y wlad.
Cynhelir pwyllgor y Sioe ar yr ail nos Fawrth o bob mis yn y Druid yng Ngoginan ac mae croeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

**Brysiwch wella**
Pob dymuniad da i Mrs Ann James Afallon, sydd wedi cael anffawd yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan Ann.

Cofion cynnes i Ieuan a Glenys Gruffudd Pennant, y ddau ddim yn hwylus iawn y dyddiau hyn.

Cofion hefyd i Mrs Rina Macdonald, Tangeulan gynt, a ddathlodd ei phen blwydd yn 90 oed ar y 1af o Hydref. Wrth fynd i'r wasg, yn anffodus daeth y newyddion ei bod yn sal iawn, sydd yn amser gofidus i Emyr a Ruth.

## TREFEURIG

**Mellt ar y Rhestr Fer**
Yn dilyn eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ennill Albwm Cymraeg y Flwyddyn clywodd y grŵp Mellt fod eu halbwm cyntaf 'Mae'n Hawdd Pan Ti'n Ifanc' ar restr fer Gwobr Gerddoriaeth Gymreig 2018. Bydd cyfle i'w gweld yn Aberystwyth ar Ragfyr 8fed yng Ngwesty'r Marine yn ystod penwythnos llawn hwyl i ddathlu pen blwydd Siop y Pethe yn 50 oed a hefyd gyda Geraint Jarman yng Nghanolfan y Celfyddydau ar Dachwedd 9fed. Cyhoeddir canlyniadau y gystadleuaeth nos Iau Tachwedd 8fed.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor wedi toriad dros yr haf ar nos Iau 27 o Fedi o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Er bod y cyfarfod wedi ei hysbysebu yn y wasg yn dilyn gorchymyn y Cyfrifydd Cyffredinol, nid oedd neb o'r trethdalwyr yn bresennol, ac ni chafwyd yr un sylw gan neb fod yr adroddiad wedi "mynd yn gyhoeddus".

Derbyniwyd yr ail adroddiad oddi wrth y Cyfrifydd Cyffredinol a oedd mwy neu lai air am air am y copi cyntaf, enghraifft o waith yn sawru o fiwrocratiaeth diangen. Penderfynwyd nad oedd werth gwastraffu amser yn ei drafod, dim ond anfon yr un atebion ag o'r blaen, yn enwedig bod yr argymhellion wedi eu gweithredu cyn i'r adroddiad bondigrybwyll "fynd yn gyhoeddus".

Ymateb y Cyngor yn gyffredinol yw mai ymarferiad oedd hwn gan Swyddfa'r Cyfrifydd Cyffredinol i baratoi Cynghorau Cymuned i beth sydd o'u blaen pan fydd y Cynghorau Sir yn dadlwytho gwaith yn lleol, a'r Cynghorau Bro yn gorfod delio â llwyth o waith ariannol ychwanegol. Go brin fydd neb eisiau bod yn gynghorwyr ac yn sicr ddim yn glercod erbyn hynny! Derbyniwn fod rhai pethau ddim fel y dylent fod yn rheolaeth y cyllid gennym, ond y mae ochr arall i'r geiniog na wêl y gwŷr yn eu swyddfeydd mohono.

Yr ydym yn griw o Gynghorwyr sydd byth a hefyd yn gwrando ar gwynion y cyhoedd ac yn eu dwyn i sylw yr adrannau perthnasol yn ein cyfarfodydd misol yn gyson gyda chymorth amhrisiadwy y Cynghorydd Sir, y Cynghorydd Paul Hinge. A hynny yn ddi-dâl. Ar hyd y blynyddoedd yr ydym wedi cyllido parciau chwarae i'r plant a chyfrannu yn ôl ein gallu yn ariannol tuag at fudiadau gwirfoddol yn yr ardal. Mae nifer o seddau o safon wedi eu gosod ar hyd y pentref, pethau fel hyn sydd angen "mynd yn gyhoeddus" (chwedl y Prif Archwiliwr).

Gallwn sicrhau y cyhoedd yn ardal Tirymynach a Llangorwen y byddwn yn parhau i weithredu drostynt yn ddidwyll i'r dyfodol.

A nawr at waith y noson! Adroddodd y Cyng. Paul Hinge fod y casgliadau ysbwriel yn annerbyniol mewn rhai rhannau o'r gymuned a'i fod eisoes wedi datrys y problemau gyda'r swyddogion. Bydd PACT yn cyfarfod ar 10 Hydref yn Neuadd Rhydypennau am 7pm. Mae problem wedi codi parthed datblygiad yr orsaf trenau yn Bow Street. Mae Asiantaeth Dŵr yn dweud fod yr ardal parcio yn debygol o gael ei orlifo gan ddŵr, ac mae'r fiwrocratiaeth bondigrybwyll yma eto yn dal pethau yn ôl. (Gŵyr y cyfarwydd mai dŵr ffordd yw'r broblem).

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyng. Sharon King (a oedd yn methu a bod yn bresennol) yn cwyno ar ran nifer o drigolion ardal y Dolau nad oedd lle diogel i blant ddisgyn oddi ar y bws ysgol ar ben lôn Dolau. (Mae nifer y plant sydd yn mynd i ysgolion y dref wedi cynyddu yn ddiweddar). Addawodd y Cyng. Hinge y byddai yn mynd i'r afael â'r mater wrth gwrsio cynllun y llwybr at Rhydypennau.

Cyflwynwyd copi o Monitro Cyllideb y Sefyllfa Ariannol chwarterol gan y Clerc ac fe'i derbyniwyd gan y Cyngor. Daeth cais am godi coeden Nadolig mewn lle canolog yn y pentref, a phenderfynwyd ariannu'r prosiect wedi i'r trefniadau gael eu gwneud.

Daeth cais am godi hysbysfwrdd cymunedol ger siop Spar yn Bow Street, ac yma eto penderfynwyd cefnogi'r fenter.

Mae rhywrai hollol anghyfrifol yn gadael i'w cŵn faeddu y meysydd chwarae yn yr ardal, yn enwedig un Bryncastell, a hynny gan y bore godwyr mae'n debyg. Mater o amser yw hi cyn bydd y drwgweithredwyr yn cael eu dal, "ac yn mynd yn gyhoeddus" chwedl yr Archwilwyr. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 25 Hydref am 7.30pm.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006


# Awdur ifanc yn cyhoeddi cyfrol arloesol ar hen ddiwydiant mwyn yr ardal

Ioan Lord. *'Rich Mountains of Lead': The Metal Mining Industry of Cwm Rheidol and Ystumtuen.* Vale of Rheidol Railway, 2018. 272t £45.00

Mae'r hanes manwl hwn o weithfeydd mwyn plwm, sinc ac arian Cwm Rheidol ac Ystumtuen yn astudio chwyldro a chwymp y diwydiant mwyngloddio yn yr ardal aml-anghofiedig hon o ganolbarth Cymru. Mae nifer fawr o'r safleoedd wedi, ac yn dal i gael, eu chwalu a'u gwastadu; safleoedd sydd ganddynt bwysigrwydd enfawr mewn treftadaeth lleol, a siapiodd a newidiodd ganolbarth Cymru am byth. Nifer fechan o'r safleoedd hanesyddol lleol yma sydd wedi eu hamddiffyn, ac mae nifer fawr y gellid dal eu harbed allan o'r cannoedd o hen weithfeydd mwyn ar draws y sir. Mae'r gyfrol hon yn cynnwys hanes cyflawn pob un o'r gweithfeydd mwyn yng Nghwm Rheidol ac Ystumtuen, yn ogystal ac astudiaethau o'r safleoedd heddiw ac arolygon arloesol o'r gweithfeydd o dan ddaear. Roedd y rhain i gyd yn safleoedd a gyfrannodd at greu un o'r diwydiannau mwyaf a phwysicaf y cafodd Sir Geredigion erioed.

*'Nid oedd unrhyw berson wedi sefyll yn y fan yma ers Mai 1863, ac roedd nifer o offer ac arteffactau yn dal ar lawr ble cawsant eu gadael gan y mwynwyr o'r oes o'r blaen. Fe lenwom y fynedfa i mewn eto wrth i ni adael. Efallai ei fod yn well i adael y capsiwl amser hyn fel y mae nawr – wedi claddu ac yn ddistaw – allan o barch tuag at yr hen fwynwyr ble mae eu holion traed yn dal ar lawr, a weithiodd a lafurodd yma dros 150 o flynyddoedd yn ôl.'*

Mae Ioan Lord, 20 oed, wedi bod yn astudio ac archwilio'r hen weithfeydd mwyn o amgylch Aberystwyth ers yn 6 oed, ac fe ddechreuodd ysgrifennu'r gyfrol hon pan yr oedd yn ddim ond 8. Mae degawd o ymchwil pellach, a chefnogaeth o Reilffordd Cwm Rheidol a gyhoeddodd y gyfrol academaidd unigryw hon, wedi gwireddu breuddwyd Ioan i greu cyfrol sy'n torri tir newydd mewn nid dim ond astudio hanes diwydiannol cwm nad sydd wedi cael ei ymchwilio'n fanwl o'r blaen, ond hefyd bywydau cannoedd o ddynion, menywod a phlant a oedd yn gweithio yn y gweithfeydd mwyn. Mae Ioan yn astudio Hanes Cymru ym Mhrifysgol Bangor, a phan nad yw'n gweithio fel Giard neu Daniwr ar Reilffordd Cwm Rheidol, mae'n gweithio fel Curadur ac yn ehangu arddangosfeydd diwydiannol yn amgueddfeydd Corris a Gwaith Mwyn Llywernog ym Mhonterwyd.






Y gyfrol hon yw canlyniad nifer o flynyddoedd o waith archifol, archaeoleg, archwilio a phalu o dan ddaear sy'n cysylltu'r hanes gyda darganfyddiadau diweddar anhygoel yng nghrombil mynyddoedd Cwm Rheidol ac Ystumtuen. Mae'n uno archif enfawr o hen ffotograffau a dogfennau, mapiau a llyfrau sydd yn dyddio yn ôl hyd at 1670. Mae'n dangos pwysigrwydd lleol a chenedlaethol diwydiant 4,000 o flynyddoedd oed, sy'n haeddu llawer mwy o gydnabyddiaeth a sylw.

Mae'r gyfrol clawr caled 272t ar gael – pris £45 – o Reilffordd Cwmrheidol, hefyd trwy Gwales neu Amazon neu oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru.

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor 7 niwrnod
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Medi 20 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r Is-gadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sir a pedwar Cynghorydd Cymuned.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf fel rhai cywir. Adroddodd y clerc fod y Cyngor Sir wedi talu ail ran y praesept. Mae yswiriant 2018/2019 wedi ei dalu.

Mae Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau am grantiau bychan oddi wrth fudiadau lleol i gefnogi prosiect neu weithgaredd. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

- Amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd a'i fudd i'r ardal neu i'r brodorion.
- Manylion o gyllid y prosiect / gweithgaredd a pha elfennau y mae y cais yn ei ariannu.
- Copi o fantolen ariannol diweddar y mudiad.

Mae angen danfon y ceisiadau i Lynne B Davies (Clerc Cyngor Melindwr ), Glasfryn, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LP. Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Rhagfyr 31 2018. Bydd y ceisiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod Ionawr 2019. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Hydref 18fed am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

## DOLAU




**Casglu swm uchel o arian**

Llongyfarchiadau i Leanne Hughes, Dolau, a gweddill aelodau Team Iwan a lwyddodd i gasglu dros £13,000 i'r Grand Appeal, sef elusen Ysbyty Plant Bryste, trwy seiclo 240 o filltiroedd o Land's End i Fryste fis Medi. Cafodd mab Leanne, Iwan, driniaeth ar y galon yn yr ysbyty y llynedd, a phenderfynodd y teulu yr hoffent gydnabod eu dyled i'r ysbyty trwy godi arian ar eu cyfer. Bu'r daith yn antur a hanner dros bedwar diwrnod, ac amodau'r tywydd yn heriol a dweud y lleiaf, ond llwyddwyd i gyrraedd Bryste gyda gwên, a chodi swm rhyfeddol o arian ar yr un pryd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Julie a Garmon Ceiro, Caerdydd, ar enedigaeth merch - Eiry Noelle Jones - ar 30 Medi; wyres i Iwan M Jones, Dolau Gwyn.

*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

**Walker's Dog Walkers**
Cerdded cŵn a gwarchod anifeiliaid.
**Bryn Walker**
Llety'r Ddwylan
Penbontrhydybeddau
Aberystwyth SY23 3EZ
01970 828066
07971942877
lletyr@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

## CLARACH

**Marwolaeth**
Ar y 25ain o Orffennaf, mewn Cartref yn Birmingham, bu farw Alan Evans, gynt o Coedmor, Clarach, wedi ysbaid o salwch creulon. Yr oedd yn fab i Doris a Cyrus Evans, ac wedi dyddiau coleg treuliodd ei fywyd fel pensaer yn Birmingham. Cyn ymddeol prynodd dŷ ym Mryncastell, lle treuliodd lawer penwythnos dedwydd yn ymweld â'i deulu a ffrindiau, ac addoli yng Nghapel y Garn. Yr oedd yn hynod o boblogaidd a pharchus gan ei gydnabod, a chydymdeimlir yn fawr â'i frawd Geraint a'i chwaer Mair, ynghyd â'u teuluoedd. Bu'r angladd yn Amlosgfa Birmingham, a dychwelir ei lwch i fynwent Capel y Garn ar y 30ain o Hydref, ac mae croeso i'w gyfeillion ymuno â'r teulu yn y gwasanaeth ar lan y bedd am 11.30 y bore.

## *Llythyr*

Annwyl ddarllenwyr

**ARHOLIADAU GORSEDD Y BEIRDD**
Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Geredigion yn 2020, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?


Cynhelir yr arholiadau ar y Sadwrn olaf yn Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Iaith, a Rhyddiaith, ynghyd â meysydd arbennig i Delynorion, Datgeiniaid Cerdd Dant, ac Utganwyr.

Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (***e-bost:*** wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y ***Maes Astudiaeth*** ar gyfer 2018-19-20 atoch.

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw i ardal Tregaron yn 2020?

Yr eiddoch yn gywir
Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)
Trefnydd Arholiadau Gorsedd y Beirdd

## Adolygiad




Twm Elias *Natur yn galw: ysgrifau byd natur.* Carreg Gwalch, 184t £8.50

Mae Twm Elias yn ddarlledwr cyson ar y rhaglen radio Galwad Cynnar. Rhaglen sydd bennaf yn trafod pynciau yn ymwneud â natur, ac y mae ar hyd y blynyddoedd wedi traddodi llawer o wybodaeth ar wahanol destunau. Mae hefyd yn aelod o dim ymchwil 'Llen Natur' (www.llennatur.com) sydd â chysylltiad a Chymdeithas Edward Llwyd.

Rhydd Natur yn Galw ar bapur chwe deg o gyfraniadau a wnaeth ar y rhaglen. Ceir deg eitem yr un ar y pynciau canlynol: anifeiliaid, adar, planhigion, cnydau, pryfed ac amrywiol bethau.

Torreth o wybodaeth sydd yma sy'n dangos gwaith ymchwil dros amser hir. Yn y bennod ar adar mae yma ffeithiau anghyfarwydd ynglŷn â'u hanes, greddf, ymfudo, ofergoelion a'u lle mewn chwedlau.Yn y penodau eraill cyfeirir at rigymau cefn gwlad, y Beibl, gwybodaeth feddygol a botanegol, ellyllod a gwrachod a mwy. Mae'r gyfrol yn wyddoniadur o wybodaeth.

A oeddech chi yn gwybod:

Fod y wennol bigddu yn ystod ei hoes o tua tri deg mlynedd yn hedfan tua tri chwarter miliwn o filltiroedd.

Gall gwrach droi ei hun yn sgwarnog a sugno gwartheg.

Beth yw cysylltiad helyg ag Aspirin

Rhoddodd Iolo Morgannwg enw ar chwedegwyth o afalau a oedd yn tyfu yn y Fro.

Cario taten fach yn eich poced yn beth da at gryd y cymalau.

Bod rhai mathau o neidr gant-troed a tua pump deg o barau o goesau.

Mynnwch afael ar y llyfr *Natur yn Galw*. Mae'n hawdd iawn ei ddarllen a'i ddeall, Mae'r wybodaeth yn tu hwnt o ddiddorol ac yn hollol addas i blant. Trueni nad yw rhai o'r lluniau o'r un safon a'r sgript.

**Rees Thomas**

# Côr Meibion Aberystwyth

Daeth rhaglen haf Côr Meibion Aberystwyth i ben gyda chyngerdd llwyddiannus yn y Morfa, Aberystwyth, ar y cyd â chôr meibion St. Edmundsbury o Ddwyrain Lloegr. Cyfrannwyd unawdau a deuawdau yn ystod y noson gan Tecwyn Jones ac Alwyn Evans. Mae'r côr, o dan arweiniad Alwyn gydag Elenid Thomas yn cyfeilio, wrthi'n paratoi at gyfrannu i Ŵyl y Cofio, a drefnir yn flynyddol gan gangen leol y Lleng Brydeinig, ac sy'n digwydd eleni ar nos Iau 8 Tachwedd. Bydd y côr hefyd yn canu carolau i gefnogi elusennau lleol cyn y Nadolig, ac yn ymweld â rhai o gartrefi henoed yr ardal.

Mae gan y côr tua 35 o gantorion ar hyn o bryd, a'r nod dros y misoedd nesaf yw ceisio denu rhagor o aelodau. Maent yn awyddus i glywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno, neu sydd am wybod rhagor am ganu mewn côr meibion. Fel y dywedodd Alwyn Evans, yr arweinydd, mae bod mewn côr yn golygu ymrwymiad, ond 'dyw e ddim yn cymryd drosodd eich bywyd nag yn rhwystro neb rhag cario 'mlaen â'u gorchwylion arferol. Bydd y côr yn ymarfer yn wythnosol ar nos Iau, yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth, ac yn ogystal ag ymarfer a chymryd rhan mewn perfformiadau o dro i dro, mae bod yn aelod yn gyfle i gymdeithasu a chael hwyl.

Mae lle i bawb sy'n hoffi canu ond heb fod yn gantorion arbennig; fel y dywedodd yr Athro Gareth Williams, cyn-aelod o'r côr, unwaith ar raglen deledu: "Tasen i'n ceisio canu unawd ar fy mhen fy hun, fe fydden i'n gwagio neuadd mewn dwy funed, ond fel aelod o gôr meibion ers blynydde, rwy'n gallu cyfrannu at greu sain mae pobol yn mwynhau" .

Croeso i unrhyw un droi i mewn i'r ymarfer ar nos Iau, neu gysylltu â'r Ysgrifennydd, Hywel Wyn Jones (ffôn 01974 202980; e-bost:hyweljones642 @btinternet.com )

Mae Côr Meibion Aberystwyth, gyda chaniatâd ei gynllunydd John Rowlands, (cyn-athro yn Ysgol Penweddig) wedi mabwysiadu'r logo yma, a luniwyd yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Urdd y Benywod**
Mae y tymor wedi dechrau eto, ac mi fu rhai aelodau yn ddigon dewr i fynd ar daith gerdded o amgylch yr Hafod ar brynhawn gwlyb iawn. Nos Lun gyntaf y mis daeth tua ugain o bobl i Ganolfan Croeso Statkraft i dreulio orig yng nghwmni Erwyd Howells. Daeth a llond sawl sach o hen greiriau diddorol a chafwyd llawer o hwyl yn dyfalu beth oedd eu pwrpas yn y dyddiau a fu. Hyfryd oedd cael croesawu nifer o wynebau newydd i'r Urdd. Cafwyd cwpanaid o de wedi ei pharatoi gan Elen Howells, Alice Briggs a Carol Marshall. Diolchodd Carol yn gynnes i Erwyd ac I bawb am eu cefnogaeth.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Nos Fercher olaf mis Medi cynhaliwyd cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes o dan ofal Dr. Rhidian Griffiths, Aberystwyth. Croesawyd pawb i' r gwasanaeth gan Beti Daniel, gan ddiolch yn arbennig am y gefnogaeth o'r ardal gyfagos. Yr organyddes oedd Delyth Davies Maencrannog ac 'rydym yn ddiolchgar iawn iddi am fod mor barod i gymryd at y gwaith bob amser. Noson ddymunol iawn.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Tair Llyn ar farwolaeth Mrs. Jones, Glanrhydtynoeth, yng Nghartref Y Cwm, Clarach.

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
**Hydref**
21 Elwyn Pryse
28 John Owen
**Tachwedd**
4 Bugail
11 Lyndon Lloyd
18 Bugail
25 John Tudno Williams

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Dai a Sylvia Powell, Nantybwla, Capel Madog, yn dilyn marwolaeth eu chwaer yng nghyfraith, Mair Gwenallt Powell o Lan-non.



## Colofn BEN LAKE AS

Fedrwn ni ddim cynllunio a gweithio tuag at ddyfodol llewyrchus i gymunedau cefn gwlad Ceredigion heb sicrhau bod ein diwydiant amaeth ni'n gynaliadwy, yn hyfyw ac yn ffynnu.

Yn anffodus, mae gan y diwydiant ffermio yng Nghymru'r potensial i fod un o'r diwydiannau gaiff ei heffeithio fwyaf yn sgil Brexit. Yn ogystal â'r ansicrwydd parhaus a ddaw o gyfeiriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar 10 Gorffennaf eleni lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad 'Brexit a'n Tir'. Mae'r ymgynghoriad hwn yn argymell diddymu Taliadau Uniongyrchol, sy'n ffurfio tua 80% o incwm ffermydd Cymru, a'u disodli gan un cynllun amgylcheddol 'nwyddau cyhoeddus'.

Gallai'r cynigion hyn weld y newid mwyaf i amaethyddiaeth yng Nghymru a'n cymunedau ffermio ers yr Ail Ryfel Byd. Gallai ansicrwydd Brexit gael ei ddwysáu gan gynigion byrbwyll Llywodraeth Cymru fyddai ond yn ychwanegu at bryder ac ansicrwydd ffermwyr. Mae perygl gwirioneddol y gallai'r argymhellion danseilio gallu rhai ffermwyr i barhau i gynhyrchu bwyd a bod yn geidwaid tir.

Mae'r Alban eisoes wedi penderfynu cynnal taliadau sylfaenol i ffermwyr ac mae'n debyg y bydd Gogledd Iwerddon yn dod i'r un penderfyniad. Golyga hyn y bydd y gefnogaeth ariannol i ffermwyr nid dim ond yn amrywio o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ond o fewn y Deyrnas Unedig hefyd, a gallai hynny roi ffermwyr Cymru dan anfantais sylweddol. Ni ddylid anwybyddu chwaith goblygiadau hir dymor yr argymhellion hyn ar hyfywedd ein cymunedau gwledig, yr iaith Gymraeg a'n diwylliant.

Bydd Plaid Cymru bob amser yn cefnogi ac yn dadlau o blaid ffermwyr Cymru, o blaid cynnyrch o Gymru ac o blaid cefn gwlad. Mae ffermio a chefn gwlad yn hanfodol i'n gweledigaeth i Gymru. Ar yr adeg hon o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd economaidd, mae Elin Jones a minnau wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i rewi'r taliadau uniongyrchol am o leiaf pum mlynedd er mwyn galluogi ffermwyr i gynllunio'n iawn ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r undebau amaeth am eu cydweithrediad agos dros yr wythnosau diwethaf. Bydd Elin Jones a minnau yn parhau i gynnal sgyrsiau a thrafodaethau gyda ffermwyr a'r diwydiant amaeth dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod llais y diwydiant i'w glywed yn glir yng Nghaerdydd ac yn San Steffan.



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**Darlith Flynyddol Morlan Pantyfedwen 2018**

**6.00, nos Fercher, 24 Hydref 2018**

'Is There a Christian Alternative to Capitalism or Socialism?'

Yr Arglwydd Brian Griffiths o Fforestfach

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

Croeso i bawb!

**morlan.cymru**
01970-617996; post@morlan.cymru

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
**Hydref**
21 10.00 Ymuno yn Noddfa Bow Street
28 10.30 Gareth William Jones – Bethesda a'r ifaciwis
**Tachwedd**
4 2.30 Y Parchg Wyn Rh. Morris Oedfa gymun
11 10.00 Y Parchg Peter Thomas – (oedfa wrth y Gofeb am 11)
18 2.30 Walford Gealy (Bethel yn cyd-addoli)
25 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 24 Hydref, 14 a 28 Tachwedd. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Jane a Daniel Thorogood, Glan Ceulan, ar ddod yn fam-gu a tad-cu. Ganwyd merch – Elsie Jayne Carter i Alex a John ar Fedi 19.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Gruffudd Eifion Owen, enillydd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni, oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod cyntaf y gymdeithas y tymor hwn. Mae'n dod o Bwllheli yn wreiddiol ond mae bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn un o olygyddion Pobol y Cwm.

Cawsom noson ddifyr a llawn o hwyl yn ei gwmni wrth iddo ein harwain drwy ei awdl fuddugol ar y testun 'Porth'. Disgrifiodd sut y dechreuodd ysgrifennu'r awdl ar ddydd Nadolig a'i gorffen adeg eira mis Mawrth.

Disgrifiad o ddigwyddiadau ym mywyd y person sy'n siarad yn yr awdl (nid Gruffudd ei hun, pwysleisia) a sut y mae ei ffôn symudol a'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithio arno yw'r cynnwys. Mae'n gyfoes iawn ac yn hawdd iawn ei darllen a'r iaith yn naturiol a ffraeth.

Yn ogystal â'r Gadair, enillodd Gruffudd y Stomp Cerdd Dant hefyd yn yr Eisteddfod. Mae'n amlwg yn berfformiwr naturiol fel y dangosodd wrth ganu cerdd ddoniol a ysgrifennodd am 'Eisteddfod wahanol' i orffen y noson.



**Tair chwaer yn rhedeg**
Lisa Davies (Caernarfon), Sara James (Castell-nedd) Lowri Guy, (Caerdydd) – tair chwaer - o Refail Fach, Penrhyn-coch, fu'n rhedeg yn Hanner Marathon Caerdydd dydd Sul 7 Hydref.



**Graddio**
Llongyfarchiadau i Rhydian Morgan, Tir-y-dail – ar raddio ym Mhrifysgol Abertawe a dymuniadau gorau iddo yn ei swydd yn Adran Gyfrifiaduron y Llyfrgell Genedlaethol.

**Cyfarfod Cyhoeddus PATRASA**
Estynnir gwahoddiad i bawb i gyfarfod cyhoeddus nos Iau y 18fed o Hydref Yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00 i drafod y dewisiadau ar gyfer y cyrtiau tenis. Dewch i drafod syniadau, pryderon neu i ofyn cwestiynau, sy'n cynnwys arwyneb newydd ar gyfer pob math o weithgareddau. Mae'n gyfarfod cyhoeddus ar gyfer pawb; dewch i gael eich llais wedi ei glywed!

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**
Cafwyd noson y tymor yng nghwmni William Howells oedd wedi trefnu cwis ar ein cyfer. Croesawyd pawb i'r noson oedd dan ofal Wendy Reynolds a Glenys Morgan. Llongyfarchwyd y merched oedd yn llwyddiannus yn y sioeau yn ystod yr haf, Sioe Llanelwedd a sioeau lleol. Dangoswyd eu gwaith yn ystod y noson. Gwych dros ben. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni unwaith y mis. Mae yna raglen gwych o'n blaen yn ystod y misoedd nesaf.

**Urdd y Gwragedd**
Dechreuodd tymor newydd y gwragedd gyda chymun bendigaid a siawns i ymaelodi dros gwpanaid o de. Yn yr ail gyfarfod cafwyd cwmni dwy o'n haelodau yn sôn am eu milltir sgwâr. Ganwyd Anne Madge yn Stockport ond symudodd y teulu i fyw i Bwllheli a mynychodd ysgol Troed yr Allt; yn ddiweddarach symudodd i fyw mewn tŷ at stad Bodfean, ble cafodd teulu'r Arglwydd Niwbwrch gryn ddylanwad ar ei bywyd. Ar ôl gadael ysgol bu'n gweithio yn Llundain yn nyrsio am gyfnod cyn ymuno â'r llynges eto fel nyrs ac yn teithio i wledydd megis Malta a Malaya a thros lawer o lefydd ym Mhrydain a gorffen ei gyrfa o dri deg

mlynedd o nyrsio ym Mron-glais.

Un o Flaenau Ffestiniog yw Margaret Hands yn wreiddiol ac mae ganddi atgofion melys am ei theulu yn byw yn Railway House yn y dref. Cofiai pan fyddai'r hwter yn seinio pan yn yr ysgol a hynny yn golygu marwolaeth yn aml yn y chwarel.Daeth newid mawr i'r ardal pan ddaeth gweithiwyr o Iwerddon i adeiladu cronfa ddŵr Stwlan. Bu yng Ngholeg Lerpwl yn derbyn hyfforddiant i fod yn therapydd galwedigaethol a bu yn gweithio yn Ysbyty Dinbych am gyfnod. Yn 2006 derbyniodd yr anrhydedd o MBE gan y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol am ei gwaith fel therapydd gofal am yr henoed yng Ngheredigion. Dwy wraig weithgar iawn sydd wedi ymddeol i fyw ym Mhenrhyn-coch ac yn fraint i ni glywed eu hanes.

Diolch i bawb a gymrodd ran ac a gyfrannodd tuag at Sialens Sant Swithin yr eglwys eleni, mae'r cyfanswm ar hyn o bryd ychydig oddi tan £1,500. Mi fydd yr elw yn mynd tuag at gronfa adnewyddu to'r Eglwys. Enillydd y gystadleuaeth fechan i ddyfalu'r nifer cywir o ddyddiau gwlyb ym Mhenrhyn-coch dros gyfnod Sant Swithin (Gorffennaf 15 a 23 Awst ) oedd Laura Evans o Gaerdydd. Y wobr a enillwyd oedd ymbarél.





**I'r dyddiadur**
Nos Wener 19 Hydref. Bingo am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys, hwyl i'r teulu oll.
Nos Lun 5 Tachwedd am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys, Urdd y Gwragedd.
Nos Wener 16 Tachwedd. Bingo am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys, hwyl i'r teulu oll.
Sadwrn 15 Rhagfyr Gŵyl Coeden Eglwys St Ioan Penrhyn-coch, thema eleni yw Angylion.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Anwen Hopton, Ger-y-Llan sydd wedi bod yn anhwylus ers tro ac yn disgwyl triniaeth;

hefyd, Darren Huxtable, Dolfach, sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan i Gwyneira Marshall sydd wedi derbyn triniaeth yn Bron-glais yn ddiweddar;

Hefyd, gwellhad buan i Allan Jones, Panteg, sydd wedi bod yn yr ysbyty.

**Diolch**
Dymuna Val a Sharon Jones, Hafodawelon ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a chardiau a chyfriniadau a dderbyniasant ar golli Ceinion yn ddiweddar. Un o blant y pentre oedd Ceinion ac yn adnabyddus gan lawer am eu gyfraniad tuag at Sioe Penrhyn-coch a holl sioeau lleol. Roedd wrth ei fodd yn trin llysiau a blodau ac yr oedd yn werth gweld ei ardd bob amser. Mae ein cydymdeimlad yn fawr iawn efo Val, Sharon a'r teulu oll.

**Ymddiheuro**
Carwn yn fawr iawn ymddiheuro i Egryn Evans, Glanceulan, fod ei gyfarchion pen blwydd arbennig yn 90 oed heb ymddangos yn y rhifyn diwethaf o'r *Tincer*. A diolch iddo ar yr un pryd am ei gyfraniad i'r *Tincer*. Sori Egryn!

**Cadet prysur**
Dewiswyd Carwyn Lloyd-Jones o Sgwadron 561 (Ardwyn, Aberystwyth a'r cylch) cadetiaid y Llu Awyr Brenhinol - o'r Ddôl Fach - yn un o bump o Ddyfed i fod yn Gadetiaid i'r Arglwydd Raglaw. Golyga hyn eu bod yn mynychu digwyddiadau ledled Dyfed am flwyddyn, gan gynnwys ymweliadau brenhinol a seremonïau dinesig. Yma fe'i gwelir yn Aberaeron ar Hydref 5ed gyda'r Arglwydd Raglaw, Sara Edwards. Dynodwyd y Parc Sgwâr yng nghanol Aberaeron fel Cae Canmlwyddiant ac fe'i enwyd fel Cae Canmlwyddiant Ceredigion - Cae Sgwâr. Trwy ennill y statws Cae Canmlwyddiant,



bydd yn cael ei warchod i anrhydeddu'r miliynau a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cae Canmlwyddiant Ceredigion - Cae Sgwâr yw'r Cae Canmlwyddiant cyntaf yng Ngheredigion.

**Pêl-droed**
Canlyniadau tîm 1af
15 Medi Cwpan Cynghrair Huws Gray.
Prestatyn 4 Penrhyn-coch 0
25 Medi Penrhyn-coch 0 Llanrhaeadr-ym-Mochnant 1
29 Medi Prestatyn 1 Penrhyn-coch 1
13 Hydref Airbus 2 Penrhyn-coch 0
Menywod 16 Medi Felin-fach 2 Penrhyn-coch 1



**Bore coffi llwyddiannus**
Cynhaliwyd bore coffi yn Neuadd yr Eglwys ar 18fed o Fedi er budd cronfa Macmillan. Gwnaethpwyd elw o £467.16 a derbyniwyd y siec ar ran y mudiad gan Mike Taylor a sicrhaodd y caiff yr arian ei wario'n lleol. Hoffai'r trefnwyr, Frances Foley a Rhiannon Humphreys, ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud yr achlysur yn llwyddiant.

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**
**y tincer**

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn**
**Gweler hefyd http:** //www.capelygarn.org/
**10.00 a 5.00**
**Hydref**
21 Elwyn Pryse
28 John Owen

**Tachwedd**
4 Bugail
11 Lyndon Lloyd
18 Bugail Cymun
25 John Tudno Williams

**Noddfa**
**Hydref**
21 10.00 Cyfeillach
28 10.00 Parchg J E Wynne Davies

**Tachwedd**
4 10.00 Uno yn y Garn
11 10.00 Oedfa Sul y Cofio
18 10.00 Cyfeillach
25 10.00 Parchg Richard Lewis

**Diolch**
Dymuna Gwynant a Bet Evans ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a'r cyfarchion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu priodas aur ddiwedd Medi.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Olwen Evans, 20 Bryncastell, ar farwolaeth sydyn Alan Evans tua diwedd Awst. Roedd Alan yn frodor o Gaerdydd ac wedi byw ym Mryncastell ers blynyddoedd.

**Capel y Garn**
**Swper y Cynhaeaf**
Nos Wener, Medi 14, roedd hi'n noson Swper y Cynhaeaf yng nghapel Bethlehem, Llandre. Gwych o beth oedd gweld y byrddau i gyd yn llawn a chlywed y sgwrsio diddan dros fwyd danteithiol Delyth Jones a Dwysli Peleg-Williams, gydag Alan Wynne Jones yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth. Roedd hwn yn achlysur addas ar gyfer cofio ac anrhydeddu. Pan ddaeth y gwledda i ben felly cyflwynodd Arglwydd Elystan Morgan deyrnged haeddiannol iawn i Erddyn a Gwenda James, Tai Gwynion, sydd newydd roi'r gorau i drefnu a gweinyddu Bethlehem ar ôl hir flynyddoedd o wasanaeth gofalgar i'r capel bach. Mawr yw'n diolch ni iddyn nhw.



**Clwb 300 Cyfeillion Neuadd Rhydypennau**
Dyma'r enillwyr diweddaraf:
£40 Alfie Wyn Evans
£20 Mair Jones, Maes-y-Garn
£10 Gwyn Jones, Y Lôn Groes, Bow Street
£5 Tom O'Malley

**BAFTA Cymru**
Llongyfarchiadau i Gwyneth Keyworth, Y Lôn Groes, am gael ei henwebu am wobr BAFTA Cymru am yr actores orau am ei rhan yn Craith. Cyhoeddir enwau yr enillwyr ar 14 Hydref yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd

**Ffrindiau Cartref Tregerddan**
Cyfarfod Blynyddol yn y Cartref
Nos Fercher, 25.11.2018 am 7 o'r gloch

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Ar nos Lun Medi y 10fed croesawodd ein llywydd, Brenda Jones, griw da o aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor gan gofio'n gynnes at y rhai oedd yn methu dod. Diolchwyd i Gweneira Williams am gymryd yr awenau i gasglu tâl aelodaeth yn absenoldeb ein trysorydd, Janet Roberts, sydd yn anhwylus. Dymunwyd gwellhad buan iddi.

Ar ôl mynd drwy raglen y flwyddyn a thrafod busnes y gangen estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, Iestyn Hughes. Wel am noson ddifyr! "Lluniau llawen" oedd y testun. Gwelwyd ffotograffau arbennig ganddo gyda sylwadau llawn hiwmor gan orffen gyda chwis hwyliog! Dechrau da i'r tymor.

I orffen y noson cafwyd paned a danteithion hyfryd wedi eu paratoi gan y pwyllgor dan ofal Mair Lewis a Gweneira Williams ac enillwyd y raffl gan Shân Hayward.

**Te Tregerddan**
Popeth yn barod ar gyfer Te Moethus Cyfeillion Cartref Tregerddan a gynhaliwyd ar ddechrau Medi. Jennifer Jones a Mirain Griffiths wedi bod yn brysur iawn ac wedi paratoi gwledd. Diolch am eu cefnogaeth.



Erddyn a Gwenda James

# Y BORTH

**Amgueddfa Rheilffordd y Borth**

Bydd Amgueddfa Rheilffordd y Borth ar gau hyd Hydref 27ain pan fyddant ar agor ar gyfer hanner tymor, Sad, Maw, Iau 11-4 y pnawn, Sul 1-4 y pnawn. Byddant wedyn yn cau am y gaeaf ar Dachwedd 4ydd.

**Clwb Golff y Borth ac Ynys-las**

Ar ddydd Sadwrn y 6ed o Hydref, cafodd Clwb Golff y Borth ac Ynys-las y pleser o groesawu Golffwyr Gwalia, criw o 40 o olffwyr o bob rhan o Gymru, ar achlysur dathlu 20 mlynedd ers eu sefydlu. Hoffai'r golffwyr ddiolch i'r trefnydd, Dafydd Hampson-Jones am ei holl waith caled, a'u Llywydd, John Elfed Jones am ei rodd caredig a wnaeth yn siŵr nad oedd neb yn gadael Y Borth yn waglaw.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr, Y Ddinas, gyda sgôr anrhydeddus o 144, a olygodd fod aelodau'r tîm wedi cael sgôr gyfartalog wych iawn o 36 pwynt yr un.

Ar ddiwrnod go wyntog, cafwyd digonedd o heriau, ond ar y cyfan, arhosodd y tywydd yn dda i'r ymwelwyr. Cymerodd saith tîm ran o sawl ardal o Gymru, a dyma'r canlyniadau:

| | |
|---|---|
| Barcud (ardal Ceredigion) | 115 pwynt |
| Y Ddinas (Caerdydd) | 144 (40,39,37 a 28) |
| Gambo (Pen-y-bont ar Ogwr) | 91 |
| Genod Gwalia (Bro Morgannwg) | 122 |
| Glo Man (Rhydaman) | 122 |
| Hen Nodiant (Caerdydd) | 115 |
| Hogia'r Port (Porthmadog) | 128 |

Agosaf at y twll: Arwyn Reynolds, Gambo
Y Dreif Hiraf: (M) Lowri Roberts, Genod Gwalia
Y Dreif Hiraf (D): Ceri Vaughan Jones, Gambo
Sgôr 9 cyntaf (17): Lowri Roberts, Genod Gwalia
Sgôr ail 9 (23): Dyfed Davies, Y Ddinas
Sgôr 18 Twll (19 + 21): Meurig Phillips, Y Ddinas

**Gwobr i Amos**

Dydd Sul 30 Medi cyflwynwyd gwobr i Amos Bewick gan ei gydweithwyr yng Ngorsaf Bad Achub y Borth tra yn yr ardal ar wyliau. Gadawodd Amos yr orsaf yn 2015 gan iddo gymryd cyfle i gynorthwyo cymuned yn Affrica. Manteisiodd rheolwr yr orsaf, Ron Davies, ar y cyfle i gydnabod ei 21 mlynedd o wasanaeth i'r orsaf. Yn ystod y cyfnod yma fe'i gwobrwywyd a Medal Ddewrder Efydd am achub bywyd mewn amodau anodd a pheryglus.



Amos Bewick yn derbyn ei wobr gan Ron Davies, gyda Bean Grogan, Pete Davies, Lee Trubshaw a Rhys Gardiner
Llun: Dave Reynolds


**Ydych chi rhwng 8 ac 14 oed?**
**Diddordeb mewn...**

MINECRAFT

**Y GYSTADLEUAETH**
Ar gyfer grwpiau o 2-8 oed yn mlynyddoedd ysgol 4-9
Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Geredigion ym mis Awst 2020. Eich tasg chi yw dylunio Maes yr Eisteddfod o'ch dychymyg chi. Recordiwch fideo 'walkthrough' Cymraeg , dim mwy na 5 munud, yn cyflwyno'ch cread.
Byddwch yn gwbl greadigol ac unigryw...
Dyddiad cau- 14 Rhagfyr 2018

**Y WOBR** Dosbarth Meistr Minecraft

**SUT I GYSTADLU?** Gallwch osod eich fideo ar DVD nei cofbin a'i anfon, ynghyd a'r ffurflen gais, at:
Cered, Y Ganolfan, Campws y Theatr, Dyffryn Aeron, SA48 8AF
Manylion pellach a ffurflen gais
Cered@Ceredigion.gov.uk



BRO360 LLE AR Y WE

Yn dilyn y newyddion cyffrous am lansio prosiect newydd **Bro360**, mae **Golwg** yn awyddus i benodi:

**Ysgogydd x 2**

Mae'r ddwy swydd hon yn allweddol i lwyddiant y cynllun – yn gweithio'n bennaf ym mhrif ardaloedd ffocws y prosiect, un yn Arfon a'r llall yn Aberystwyth a Gogledd Ceredigion.

**Y SWYDD**
- Sbarduno gweithgarwch yn yr ardaloedd dan sylw.
- Hyrwyddo'r prosiect yn y cymunedau lleol a thu hwnt.
- Ysgogi unigolion, mudiadau a grwpiau o bobl o bob math i gymryd rhan ac i gyfrannu at y gwefannau newydd.
- Meithrin perthynas â'r cymunedau a chyfranogwyr.
- Creu a chyfrannu deunydd addas i'r gwefannau bro.
- Cyfrannu syniadau at ddatblygu'r prosiect.

**Y PERSON:**
- Gallu i drin pobl yn effeithiol.
- Sgiliau cyfathrebu cryf.
- Diddordeb yn y We a'r cyfryngau cymdeithasol a phrofiad o'u defnyddio.
- Syniadau ffresh ac unigryw.
- Trefnus.
- Brwdfrydig a phenderfynol.

**Lleoliad y Swyddi:** Un yn swyddfa Golwg yng Nghaernarfon ac un yn Aberystwyth/Llanbed
**Cyflog:** £20,000 i £23,000
**Oriau gwaith:** Llawn amser, 40 awr yr wythnos
**Dyddiad Cau i wneud cais:** 23 Tachwedd

**Anfonwch lythyr cais, CV llawn ac enwau canolwyr.**
**Mwy o fanylion: owainschiavone@golwg.com / 01570 423 529**


# Colofn Enwau Lleoedd

Mae newid enwau lleoedd yn bwnc llosg amlwg y dyddiau hyn, gyda llawer ohonom yn pryderu'n fawr wrth glywed am hen enwau Cymraeg yn cael eu disodli gan rai Saesneg gwamal, a ninnau'n colli talp o'n hanes a'n hetifeddiaeth yn y broses.

Tybed faint ohonoch sy'n cofio'r enw *Cherry Tree Farm* yn cael ei fabwysiadu am *Lechwedd-hen*, rhwng Penrhyn-coch a Phen-bont Rhydybeddau, nôl yn yr wythdegau? Diolch i'r nefoedd, pharodd yr enw hwnnw ddim, ond rhaid i ni fod ar ein gwyliadwriaeth.

Er bod newidiadau o'r fath yn codi gwrychyn, rhaid cyfaddef bod enwau lleoedd wedi newid ac esblygu'n naturiol dros y canrifoedd, a'u bod yn parhau i wneud hynny.

Gellir gweld tystiolaeth o'r newidiadau hyn mewn hen ddogfennau sydd weithiau yn cofnodi amryw o enwau am un lle. Mae hyn yn arbennig o wir mewn gweithredoedd cyfreithiol lle byddai angen osgoi unrhyw amwysedd a allai ddeillio o fodolaeth mwy nag un enw am le penodol.



REFERENCE

| Letter on the Plan | Names of Farms | Tenants Names |
|---|---|---|
| A | Llwyn Llan Tefne | John Evans |
| B | Daran Vawr Farm | Jane Lloyd |
| C | Tyn-y-gelly Farm | Edward Evan |
| D | Brach Garw Slangs | Ditto |
| E | Troed y-rhiw Maesmirick alias Ty Hen | John Evans |
| F | Glan-yr-Avon Farm | Jn.<sup></sup> Griffith David |
| G | Cwmbwr Farm | Richard John |
| H | Penrhyn-coch ucha | John Samuel |
| I | Peithil Farm Slangs | E. Jenkins & John Griffith |
| J | In the Occupation of | Lewis Moses |


Enw'r tyddyn lle'm magwyd i ym Mhen-bont Rhydybeddau yw *Maesmeurig*, ond mae 'A survey of Cwmbw[a] and Daran Vawr farms and such farms as adjoin thereto in the Townships of Treveirig and Canol in the Parish of Llanbadarn' yn 1788 (https://syllwr.llyfrgell.cymru/144560 1#?c=0&m=0&s=0&cv=0) yn ei ddisgrifio fel '*Troed-y-rhiw Maesmirick* alias *Tŷ Hen*'. Dyma ddau enw am un tyddyn, felly, gyda'r enw presennol yn dalfyriad o'r cyntaf.

Yn yr un modd, yn ewyllys Griffith Evan o blwyf Llanbadarn Fawr yn y flwyddyn 1688 (Ewyllysiau Tyddewi 1688/56), cyfeirir at '*Tythin yssa yn Cwm Sumlogg* otherwise *troed y Llwibir melin*'. Gwyddom mai Cwm Isaf, Pen-bont Rhydybeddau, yw'r cyntaf o'r ddau enw, ac er bod yr ail enw'n digwydd mewn ffynonellau eraill, doedd ei union leoliad ddim yn hysbys hyd nes i'r ewyllys hon ddangos mai enw arall am Gwm Isaf ydoedd.

Mae'n werth oedi gydag un lle arall y cyfeirir ato yn yr un ewyllys, sef '*Tythin y Crigg* otherwise *Bron Meirick*'. Heddiw, *Bronfeurig* yw'r byngalo a saif ar ben lôn Pant-drain, ond dyna hefyd oedd enw'r tyddyn a leolid gynt islaw'r briffordd rhwng Pant-drain a Bronheulwen, mewn llecyn a elwir ar lafar yn Pant Bach.

Ni wn am unrhyw ffynhonnell arall sy'n cofnodi'r enw *Tyddyn y Crug*, ac nid oes arlliw o'r enw wedi ei gadw yn enwau caeau *Bronfeurig* ar Restri'r Map Degwm yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nac yn yr enwau a ddefnyddir ar gaeau'r cyffiniau ar lafar heddiw.

Gan mai ystyr *crug* yw 'bryncyn neu dwmpath', tybed ai cyfeiriad ydyw at y codiad tir amlwg sydd i'w weld ar y llethr uwchlaw'r ffordd rhwng Pant Bach a Bronheulwen.



**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru









## LLANDRE

**Enwebu Pysgoty**
Llongyfarchiadau i Craig a Rhiannon Edwards, Lôn Glanfred, a bwyty Pysgoty, Yr Harbwr, Aberystwyth gafodd eu henwebu i restr o ddeuddeg bwyty pysgod gorsu Prydain, a'r unig un o Gymru ar y rhestr.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mair Parry, Bryste (gynt o Maes y Glyn, Llandre) a Rhys a Catrin ar farwolaeth David Parry ym mis Medi. Roedd David yn fab i'r diweddar Ganon Parry, Penrhyn-coch.

**Gweithio mewn Ysbyty**
Dymuniadau gorau i Iwan Williams ar ei gyfnod yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

## GOGINAN

**Dymuniadau Gorau**
Dymunwn wellhad buan i Arthur Williams, Penrhiwlas, sydd yn Ysbyty Bron-glais fel mae'r Tincer yn mynd i'r wasg.

**Prynhawn Da**
Braf oedd gweld Rhys Bebb, Blaendyffryn gynt, ar raglen Medi 25 o Brynhawn Da. Roedd yn sgwrsio am ei waith gyda IntoFilm.


**Capel y Dyffryn, Goginan**
Cynhaliwyd gwasanaeth o Ddiolchgarwch Nos Wener 5 Hydref dan arweiniad Dr Gwyn Davies, Aberystwyth. Testun ei neges o Salm 103 – Fy enaid bendithio yr Arglwydd ac nac anghofia ei holl ddaioni Ef - iddo ein annog i ddarllen y Salm er mwyn codi ein calonnau ni.

Diolch am fendithion tymhorol personol ar fwya un bendithion Ysbrydol. Rhodd fwyaf Duw i ni yw Iesu Grist – Gwaredwr – Mae Duw yn Iesu Grist wedi trefnu ffordd i ni cael cymod a Duw. Mae bendithion Ysbrydol byth yn darfod. Dyma air Duw i ni – Nac anghofia ei holl ddaioni Ef – A ydy Ef yn ben arnom ni? Bu y neges yn un fendithiol ac yn un heriol – A ydym yn ei addoli Ef a'n holl galon?

Croesawyd pawb gan Arwyn Roberts, Penbryn a diolchodd i bawb am ymuno yn y gwasanaeth o ddiolch. Mrs Olwen Jones, Capel Seion (Penbryn gynt) oedd wrth yr organ. Addurnwyd y capel gan y chwiorydd.

# Adolygiad

*Myrddin ap Dafydd. Pren a Chansen* Gwasg Carreg Gwalch, 2018. 198t. £6.99




Mae'r Prifardd a'r darpar Archdderwydd Myrddin ap Dafydd yn adnabyddus fel bardd cynhyrchiol, ond yn ddiweddar mae wedi troi ei olygon at hanes, fel ei gyfrol ddifyr ar y Gororau. Ond mae hefyd wedi dechrau sgwennu nofelau ar gyfer ieuenctid. Mae y gyfrol hon yn gyfuniad o'i ddiddordeb mewn hanes ar ffurf nofel.

Stori i bobol ifainc yw *Pren a Chansen* yn sôn am gyfnod y Welsh Not. Ie! mae'n hanes ddigon adnabyddus ond mae gan yr awdur y ddawn i'w hadrodd mewn ffordd wahanol - mae yn adnabod un a fu yn yr ysgol ar ddiwedd cyfnod y Welsh Not ac a ddioddefodd y gosb am siarad Cymraeg drwy orfod gwisgo'r darn pren gwaradwyddus.

Mi ddaeth yr awdur i adnabod R. E. Jones ( Bob, arwr y stori) pan ymddeolodd y bardd a'r llenor a mynd i fyw i Lanrwst a thrwy ei adnabyddiaeth ag ef y clywodd yr hanes. Hanes uniongyrchol felly.

Prif gymeriad y stori yw Bob, ac mae'n byw yn Llangernyw ac yn wyth oed yn dechrau yn yr ysgol. Oherwydd afiechyd, nid yw'n medru mynychu'r ysgol tan hynny ac yn gynnar yn yr hanes cawn ddarllen amdano yn mynd i ysgol y " Church of England School Llangerniew" am y tro cyntaf. Ar y buarth y tu allan i'r ysgol gwêl ei frawd Now yn derbyn y gansen am iddo roi cyfarwyddiadau i'w frawd bach Bob yn y Gymraeg. Gedy hyn Bob druan yn fud dewisol. Nid yw'n deall gair o Saesneg ac nid yw yn deall dim y mae'r athrawon yn ei dweud.

Y tu allan i'r ysgol y mae Bob yn fachgen bach hapus iawn sydd dan ddylanwad ei nain yn dod i adnabod y coed, yr adar a'r mynyddoedd o'i gwmpas. Mae Nain hefyd yn cael copiau o *Cymru'r Plant* a thrwy hynny clyw storiau gwerin a hanes, dywediadau a diarhebion a phenillion a cherddi.

Caiff tad Bob ddamwain gas sydd yn ei adael yn orweddog am dair mlynedd sydd yn golygu bod raid i'r teulu fynd ar y plwy'. Mae'r plant yn y teulu yn manteisio ar bob cyfle i fynd allan i weithio i ychwanegu at y coffrau. Cawn ddisgrifiadau o ddyddiau curo am grugieir, am bladuro a thorri'r tyfiant yn y fynwent gan ddysgu'r darllenydd ifanc heddiw am arferion y cyfnod ac yn helaethu geirfa.

Drwy gwrdd â Donald MacDonald o Ynys Skye sef Cipar y Plas sydd hefyd wedi cael triniaeth gyffelyb o ran yr iaith pan oedd yn blentyn, cawn weld mae cynllun gan yr Ymherodraeth Brydeinig oedd ceisio dileu pob iaith leiafrifol.

Mae newid ar droed beth bynnag pan ceir Bwrdd Addysg dros Gymru ac Owen M. Edwards yn Brif Arolygydd. Ysgrifenodd nifer o wers lyfrau drwy gyfrwng y Gymraeg ac fel canlyniad a dychnwch Llew Tegid datblygwyd Coleg Bangor fel yr hyfforddwyd mwy o athrawon addas i ddysgu drwy'r iaith.

Heddiw mae ymgyrch gan y Cynulliad i gael mwy o siaradwyr Cymraeg ac mi fyddai'n fuddiol i ieuenctid heddiw wybod am y Welsh Not a'r hanes gwaradwyddus. Yn sicr mi ddysgais i nifer o ffeithiau newydd er hyned yr hanes.

**Diana Jones**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
**01970 820124**
**07709 505741**

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
**01970 828312**

**MYNACH GARDEN MAINTENANCE**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Ysgol Penrhyn-coch

**Castell Henllys**
Cychwyn ein thema –Celtiaid Cythreulig - oedd ymweld â'r Bryngaer hanesyddol yng Nghastell Henllys.

Dyma bwt o adroddiad Olivia Hughes Evans. "Ar ôl croesi'r bont (mynd nôl mewn amser) roedd yn rhaid dringo rhiw serth i dod o hyd i'r castell ei hun. Wel....cerdded a cherdded, yna ar ôl cyrraedd y pen uchaf i weld moch, mocha mwy o foch!Yna wrth I ni ddod i fwlch pren rhedodd merch hyll atom gan weiddi!! Roedd yn rhaid i ni actio fel caethweision anhapus a'n bod ni'n barod i'w helpu! Mandwa oedd enw y fenyw haerllyg! Yn y cyfamser wedi i ni fynd mewn i'r pentref cawsom gyfle i fynd o gwmpas y tai crwn a chael cyfle i bobi bara ac adeiladu darn o wal.

**Cwmni Arad Goch-Cerrig yn Slic**
Perfformiad ysbrydolus gan Arad Goch i'r Cyfnod Sylfaen. Mwynheuodd pawb ac wrth gwrs agorwyd dychymyg pawb!

**Cynghorau newydd am y flwyddyn**
Cyngor Ysgol:Mari Gibson, Coby Perch, Molly Robinson, Lleucu Thomas, Freya Watkins, Cayden Holmes a Twm Williams

Cyngor Plant Gwyrdd:Steffan Gillies,Jamie Holmes,Sian Evans, Gwen Gibson,Elis Wyn, Osian Farmer,Eva Riding
Criw teithiau iach:Annie May,Tomos James,Steffan Gillies,Ryan Bowen,Olivia H Evans,Logan Chillery, Owen Hopkins,Lucy Robson,Imogen Usher
Dewiniaid Digidol:Mari Gibson, Leah Lockyer, Lowri Bishop,Annie May, Olivia Hughes Evans,Ryan Bowen, Imogen Usher, Owen Hopkins.
Llysgenhadon: Tomos James a Katelyn Jones
Dirprwyon: Annie May a Ryan Bowen
Cymry i'r Carn: Osian, Mari, Sian, Betsan, Lois, Imogen, Gwen, Elis, Owen, Elis, Jac, Cayden, Elan, Lleucu a Twm

Enwogion o'r Byd athletau! Diolch i Chwaraeon Cymru am drefnu bod Kane Charig a Jordan Howe yn ymweld â'r ysgol. Kane oedd enillydd y fedal arian yng Ngêmau'r Gymanwlad 2018 am reslo a Jordan enillodd y fedal arian yng Ngêmau Paralympaidd 2017 am redeg 100m! Sêr go iawn ar dir ein hysgol-roeddent yn sicir yn pwysleisio ar bwysigrwydd bod unrhyw beth yn bosib os yw'r plant yn gweithio'n galed. Braf oedd bod yn eu cwmni a chafwyd tipyn o hwyl wrth i'r plant herio y ddau ar y cae chwarae!

**Taith Tractorau**
Eleni eto cafwyd taith o dractorau yn gadael yr ysgol – er i'r tywydd garw ledu yn ystod y bore daeth nifer da o yrrwyr I gefnogi ein hachos. Mae ein diolch yn fawr I Lynwen Jenkins –garej Tŷ Mawr am drefnu'r digwyddiad. Aeth tua 28 o dractorau am dro ar hyd y wlad er gwaetha'r tywydd mwynheuodd pawb yng nghwmni ei gilydd. Codwyd bron I £1000!! Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio tuag at lles pob plentyn yn yr ysgol.

**Sioe Mewn Cymeriad**
Buddug o'r Oes Haearn-Celtiaid. Cafwyd sioe weledol iawn wrth I Buddug ein tywys ni drwy helyntion ei chyfnod hi yn yr Oes Haearn. Mwynheuodd y plant chwarae rôl y Celtiaid a'r Rhufeiniaid ac mi roedd hi'n danllyd ar adegau!

**Cwrdd Diolchgarwch**
Braf oedd cael y Parchg Lyn Dafis yn ôl yn ein plith-roedd y plant wrth eu boddau yn ei gwmni a chafwyd neges holl bwysig am rannu!
Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen neges am y bobl sydd yn ein helpu yn y gymuned ac fe









fuodd y plant hyn yn rhannu bisgedi yn gyfartal gyda'I gilydd!

**Wythnos Sgwtera**
Mae'r criw teithiau iach wedi cychwyn mewn modd gweithredol iawn wrth iddyn nhw drefnu wythnos llawn dop o weithgareddau ar sgwtera! Roedd hi'n wythnos sgwtera cenedlaethol ac mi roedden nhw'n awyddus i gynnwys pawb yn yr ysgol a dyma'r gweithdai roedden nhw wedi paratoi:
Sesiwn Sgleinio'r Sgwter-cyfle i addurno eu sgwteri er mwyn gwneud ei hun yn llawer fwy gweledol wrth deithio ar y palmant
Addurno/Dylunio sgwter ei hun-yr enillwyr oedd-1af-Lleucu ap Llywelyn, 2il Lleucu Thomas, 3ydd Cayden Holmes
Teithio i'r ysgol fel criw wrth gwrdd yn y swyddfa post ac yn Dôl Helyg.
Sesiwn sgiliau sgwtera gyda Sioned Lewis, ein swyddog Sustrans.
Roedd hi'n wythnos lwyddiannus iawn ac roedd ymdrech pawb yn anhygoel!

**Mabolgampau Cylch Aberystwyth**
Eleni eto roedd ymdrech y plant i redeg o gwmpas cae rygbi yn arbennig. Dyw rhedeg ddim at ddant pawb ond wrth geisio eu gorau glas mi lwyddodd pawb! Mi fydd criw o blant yn cynrychioi'r cylch yn y rownd nesaf-da iawn chi-Aron Bishop, Zak Rhodes, Harri Bradley a Steffan Gillies am ddod yn y deg uchaf yn eich rasus chi.

# Ysgol Craig yr Wylfa

**Sioe Mewn Cymeriad, "Buddug"**
Yn ymwneud a'u thema'r tymor yma, aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i Neuadd Tal-y-bont i wylio sioe "Buddug". Mwynheuodd y plant ymuno I mewn gyda'r actio wrth ddysgu'r chwedl bwysig yma.

**Sioe, "Cerrig yn Slic"**
Cerddodd plant y Cyfnod Sylfaen lawr i Neuadd y Borth i wylio sioe gan Arad Goch o'r enw "Cerrig yn Slic". Cafodd y plant gyfle i ddefnyddio eu dychymyg a chreu gwahanol luniau allan o gerrig.

**Llysgenhadon Efydd**
Llongyfarchiadau i Ewan a Dylan am gael eu dewis i fod yn Llysgenhadon Efydd dros yr Ysgol. Aethant ar ddiwrnod o hyfforddiant gan ddysgu llawer o gêmau a sgiliau gwahanol i ddod 'nôl i ddangos i bawb yn yr Ysgol.

**Bore Coffi McMillan.**
Cynhaliwyd bore coffi McMillan llwyddiannus iawn eleni eto! Codwyd tua £90 tuag at yr elusen! Roedd y cacennau i gyd yn werth eu gweld - da iawn a diolch i'r plant, rhieni a staff a fu'n coginio, y rhai a fynychodd y digwyddiad ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at wneud y bore yn un llwyddiannus.

**Trawsgluda Cylch Aberystwyth.**
Da iawn i bob disgybl o Gyfnod Allweddol Dau a wnaeth gynrychioli'r ysgol yn Ras Trawsgwlad cylch Aberystwyth.


- TAFARN Y MAES -

TAFARN BWYTA CLYD A CHARTREFFOL YN GWASANAETHU BWYD FFRES O SAFON





NOS FAWRTH YW NOSON PEI - £9.95

Mae'r peis cartref crwst byr wedi'i weini gyda sglodion sydd wedi ei torri a llaw a llysiau tymhorol ynghyd a dewis o ddetholiad o ddiodydd am ddim!

CYNNIG ARBENNIG AMSER CINIO - £12.50

Cinio Dau Gwrs

Ar gael amser cinio Dydd Iau, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn.

CYSYLLWTCH A NI I ARCHEBU BWRDD

AMSEROEDD AGOR

Nos Fawrth hyd at nos Sadwrn 6pm – 9pm

Amser cinio rhwng 12pm – 2pm ar Dydd Iau, Gwener a Sadwrn

Cinio Dydd Sul o 12pm – 4pm

Medrwn weini te prynhawn, bwffes neud pryd o'ch dewis ar gyfer achlysur arbennig.

CAPEL BANGOR, ABERYSTWYTH, CEREDIGION, WALES SY23 3LT

01970 880981 TAFARNYMAES.CO.UK

# Ysgol Rhydypennau

**Dal lan â'r digwyddiadau**

**Garddwest yr ysgol**

Cynhaliwyd ein Garddwest eleni ar y 29ain o Fehefin. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr, amryw o stondinau ac adloniant gan blant blwyddyn 6 yn ystod y noson. Diolch o galon i Bwyllgor Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth hefyd. Diolch i'n prif noddwyr, Huws Gray, Bow Street. Diolch hefyd i noddwyr y gwobrau, Ocean View Holiday Park, Clarach, Mid Wales Travel a City Plumbing Supplies am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau a chyfarpar pwysig er mwyn cynnal addysg pob plentyn yn yr ysgol.

**Mabolgampau**

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 28ain o Fehefin. Y tîm buddugol oedd Eleri; ail oedd Ystwyth gyda Rheidol yn drydydd. Llongyfarchiadau i Ella Thomas (bl 6) am ennill pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth merched blwyddyn 5 a 6; Gethin Davies (bl 5) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth bechgyn 5 a 6; Katie Whiteway (bl 3) a Carys Williams Watkin (bl 4) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth merched blwyddyn 3 a 4 a Daniel Jones (bl 3) a Tomos Jones (bl 4) am ennill y pwyntiau uchaf yng nghystadleuaeth bechgyn blwyddyn 3 a 4.

**Gala Nofio**

Enillwyr Gala Nofio'r ysgol eleni oedd Eleri. Lleucu Siôn (bl 6) lwyddodd i ennill y wobr am y nifer fwyaf o bwyntiau yng nghystadleuaeth y merched a Noa Elias (bl 4) enillodd cystadleuaeth prif bwyntiau'r bechgyn.

**Mabolgampau'r Cylch**

Cynhaliwyd Mabolgampau'r cylch ar y 6ed o Orffennaf ar gaeau Penweddig. Da iawn i bawb fu'n cystadlu yn ystod y dydd a llongyfarchiadau mawr i'r plant llwyddodd i orffen yn y tri cyntaf.

**Ffarwelio**

Yn anffodus bu'n rhaid ffarwelio â Miss Marged James ar ddiwedd tymor yr Haf. Bu Miss James yn aelod o'n staff cynorthwyo llynedd ac fe hoffai'r ysgol ddiolch o galon iddi am ei gwaith caled yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd.

**Clwb Cant**

Dyma ganlyniad fis Medi:-
1af-£25- Llio Tanat, Fferm Glanfrêd.
2il-£15- Leri Lewis, 18 Maes Henllan, Llandre.
3ydd-£10- Mrs. Muriel Evans, 16 Cae Maenllwyd, Machynlleth.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*



Ffarwelio Miss Marged James



Gala-Noa Elias-prif bwyntiau yng nghystadleuaeth y bechgyn



Capteniaid Eleri-enillwyr y Gala nofio-Freya Inman a Lleucu Sión.



Adloniant yn yr arddwest



Gala-Lleucu Sión-prif bwyntiau yng nghystadleuaeth y merched.



Mabolgampau'r cylch.

# Ysgol Pen-llwyn

**Buddug- Sioe mewn Cymeriad**

Ar ddydd Llun, Medi 17eg, cafodd Blynyddoedd 3 i 6 y profiad o fywyd Buddug o'r IOes Haearn. Perfformiwyd hanes Buddug gan actores o gwmni 'Mewn Cymeriad'. Roedd hyn yn sbardun gwych ar gyfer ein gwaith yn y dosbarth.

**Sgwtera**

Roedd wythnos olaf mis Medi yn wythnos sgwtera i'r Ysgol. Roedd yn braf gweld cymaint o ddisgyblion yn sgwtera i'r Ysgol ac yn cael y cyfle i wneud amryw o weithgareddau o dan arweinyddiaeth staff Sustrans a'r llysgenhadon efydd.

**Trawsgwlad**

Ar ddydd Gwener, 28ain o Fedi, cystadlodd plant Cyfnod Allweddol 2 yn nhrawsgwlad Cylch Aberystwyth ar gaeau'r clwb rygbi. Buom yn llwyddiannus iawn mewn sawl ras gan weld nifer o ddisgyblion yr Ysgol yn gorffen yn y deg cyntaf. Byddant yn cael y cyfle i gynrychioli'r Cylch yn Nhrawsgwlad y Sir. Dymunwn bob lwc i'r rhedwyr.

**Sharon M Jones**

Cyffro mawr oedd cael ymweliad gan awdur Grace-Ella ar ddiwedd mis Mai. Buon ni'n ffodus iawn i dderbyn rhodd o lyfrau arbennig gan Sharon Jones. Mae hi'n awyddus i annog plant i garu darllen ac rydym yn awyddus iawn i ddarllen y llyfrau newydd. Diolch yn fawr Sharon.

**Diolchgarwch**

Aethon ni i Gapel Pen-llwyn ar gyfer ein Cwrdd Diolchgarwch eleni. Ar ôl darlleniadau a chaneuon gan y plant, roedd Dr Watcyn James wedi paratoi stori am ddechrau'r byd. Mwynheuodd y plant ymuno gyda'r stori a pherfformio ar y cyd. Casglwyd bwydydd tuag at Fanc Bwyd Aberystwyth.

**Cerrig yn Slic**

Buom yn ffodus iawn i gael Cwmni Arad Goch i berfformio sioe Cerrig yn Slic yn yr ysgol. Dechreuodd y sioe ar iard yr ysgol ac yna i mewn i'r Neuadd. Roedd yr actorion yn arbennig o dda, a mwynheuodd y plant mas draw! Cafodd pawb y cyfle i ymuno gyda gweithgareddau gyda'r cerrig ar ddiwedd y sioe.

**Erwyd Howells**

Diolch yn fawr am gyflwyniad Erwyd Howells am ffermio yn oes y Celtiaid. Roedd llawer o offer ganddo i ddangos a sgwrs diddorol iawn. Dysgodd y plant lawer am hen offer haearn y fferm a'r cartref.












# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n lliwio llun y cymeriad ar y beic wrthi'n chwysu chwartiau wrth ddringo rhiwiau ardal *Y Tincer*! Dyma'r enwau: Math Lewys Roberts, Bont-goch; Elis Wyn Jenkins, Penrhyn-coch; Megan Haf, Penrhyn-coch; Dylan ac Owain Herron, Bow Street; Mari Roberts, Penrhyn-coch; Shane Tomos Evans, Llandre; Cari Jenkins, Penrhyn-coch. Daliwch ati i yrru'r lluniau ata i. Dwi wrth fy modd yn eu derbyn, bob un, ond ti, **Dylan** sy'n cael y wobr y tro hwn – roedd sawl un ohonoch chi wedi rhoi crys melyn i'r beiciwr, ond roeddet ti, Dylan wedi rhoi'r Ddraig Goch yna hefyd, y geiriau 'Titw Tomos' a 'Paris'. Grêt!

Gobeithio eich bod wedi dathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ar 4 Hydref drwy ddarllen a sgwennu cerddi o bob math. Oes gynnoch chi hoff gerdd, tybed? Ac ar 11 Hydref roedd hi'n ddiwrnod pen blwydd T. Llew Jones, yn doedd? Dyna rywun oedd yn medru sgwennu cerddi! Beth am ddarllen 'Cwm Alltcafan', neu 'Dawns y Dail'?




Dylan

Mae 21 Hydref hefyd yn ddiwrnod pwysig, sef Diwrnod yr Afal. Falle fod gynnoch chi goeden afalau yn yr ardd? Mae'r llyfr newydd *Afalau Cymru* ar gael hefyd yn y siopau llyfrau! Y mis hwn, beth am liwio llun y fasged sy'n llawn o ffrwythau'r hydref, ac mae'r pwmpenni hefyd yn barod at Galan Gaeaf. Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Tachwedd 1af. Ta ta tan toc!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**


SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

**01970 617120**

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



**JONATHAN LEWIS**

Saer Coed / Adeiladydd

01970 880 652

07773 442 260

BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 412 | HYDREF 2018*